



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Buddsoddi mewn Cymru Iachach: blaenoriaethu atal

Crynodeb
Gweithredol



Awduron

Rebecca Masters sydd wedi arwain datblygiad yr adroddiad hwn. Mae wedi ei ysgrifennu gan Rebecca Masters, Ann Jones, Anna Stielke, Rajendra Kadel, Leah Jenkins, Aseel Dardur a Jo Davies gyda chymorth Sumina Azam.

Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dyfyniad

Masters R, Jones A, Davies J, Stielke A, Kadel R, Jenkins L, Dardur A, ac Azam S. Buddsoddi mewn Cymru Iachach: blaenoriaethu atal. Crynodeb Gweithredol. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Diolchiadau

Diolch yn fawr am ddarparu tystiolaeth a sylwadau ychwanegol i: Kerry Bailey, Huw Brunt, Llion Davies, Mariana Dyakova, Chris Emmerson, Sian Evans, Tracy Evans, Ashley Gould, Liz Green, Rebecca Hill, Joanne Hopkins, Anna Howells, Ciarán Humphreys, Amrita Jesurasa, Ilona Johnson, Anup Karki, Amy McNaughton, Jo Peden, Paul Pilkington, Wendi Shepherd, Emily van de Venter, Zoe Wallace, a Mary Wilson.

ISBN 978-1-83766-560-0

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Crynodeb Gweithredol

Mae iechyd da yn hawl ddynol sylfaenol

Mae sicrhau iechyd a llesiant da yn galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus, adeiladu perthnasoedd ystyrlon, cyfrannu at eu cymunedau a mwynhau ansawdd bywyd uwch wrth heneiddio. Hebdo, rydym yn cael trafferth i ffynnu, gan arwain at gostau personol a chymdeithasol sylweddol.



Mae iechyd yn cael ei ffurfio gan flociau adeiladu sylfaenol, gan gynnwys cartrefi diogel a chynnes, perthnasoedd sefydlog, mynediad at addysg a gwasanaethau, gweithgarwch pwrpasol, a chyfleoedd ar gyfer ymddygiad iach. Yn anffodus, mae cyflawni a chynnal iechyd da yn dod yn fwyfwy anodd, ac mae gwahaniaethau mewn iechyd rhwng cymunedau (anhydraddoldebau iechyd) yn cynyddu.


Mae buddsoddi mewn iechyd a llesiant yn hanfodol

Er gwaethaf bregusrwydd cyllid y sector cyhoeddus, nawr yw'r amser i flaenoriaethu buddsoddiad yn iechyd y genedl, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anhydraddoldebau iechyd a galluogi pobl Cymru i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Gall ymrwymiad parhaus cryf i atal leihau baich a chostau afiechyd i'r system iechyd a gofal, gydag ymyriadau iechyd y cyhoedd yn cynnig elw o £14 am bob £1 a fuddsoddir ⁽¹⁾. Mae angen inni fuddsoddi mewn atal, nid dim ond er gwaethaf sefyllfa ariannol heriol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond o'i herwydd.



Map llwybr ar gyfer newid effeithiol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae buddsoddi mewn atal yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd da trwy gydol bywydau pobl, gan arddangos meysydd a allai gael yr effaith fwyaf. Mae'n canolbwyntio ar raglenni hirdymor ac ymyriadau wedi'u targedu sy'n anelu at wella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau a lleihau effaith ariannol iechyd gwael ar y GIG a'r gymdeithas ehangach yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu dull cwrs bywyd, gan bwysleisio ymyriadau sy'n lleihau effaith gronol risgiau iechyd gydol oes ac ar draws cenedlaethau.



Ein canfyddiadau

Rydym wedi crynhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf ar ble y gall buddsoddi mewn atal gael yr effaith fwyaf yn y blynyddoedd cynnar a phlant, ar gyfer oedolion iach ac ar gyfer heneiddio'n iach.



Blynyddoedd Cynnar a Phlant

Mae cyfradd marwolaethau plant Cymru 70% yn uwch ar gyfer plant sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig o gymharu â'u cymdogion mwyaf cefnog⁽²⁾

Mae rhaglenni i gefnogi rhieni a'r blynyddoedd cynnar yn effeithiol ac yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd a llesiant da yn y tymor hwy, gan ddod ag elw sylweddol ar fuddsoddiad. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i wneud y gorau o'u galluoedd a chyflawni eu potensial hyd at fod yn oedolion iach.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:


Gwasanaethau integredig ar gyfer iechyd meddwl mamau a rhieni



Rhaglenni addysg blynyddoedd cynnar yn arbennig ar gyfer teuluoedd incwm isel



Rhaglenni sy'n cefnogi menywod i roi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd



Oedolion Iach

Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig siawns llawer uwch o farwolaeth o achosion y gellir eu hosgoi (3.7 gwaith i ddynion a 3.8 gwaith i fenywod)⁽³⁾

Mae'r canfyddiadau'n pwysleisio'r angen i gefnogi ymddygiadau iach, llesiant meddwl a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Mae'r rhaglenni'n adlewyrchu dull traws-sector sy'n darparu gwasanaethau effeithiol ac amgylcheddau cefnogol a galluogol.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:

Dulliau aml-gydrannol o leihau hunan-niwedio a hunanladdiad



Rhaglenni gweithgarwch corfforol i liniaru gordewdra a chlefydau cysylltiedig fel diabetes.



Rhannu data rhwng sefydliadau gan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â thrais





Heneiddio'n Iach

Mae bwlch o 17 mlynedd mewn disgwyliad oes iach i fenywod sy'n byw yn ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru. Mae'r bwlch hwn yn 13 mlynedd i ddynion ⁽⁴⁾

Mae angen dull cyfannol i sicrhau heneiddio'n iach gyda chydabyddiaeth o werth pobl hŷn a'u cyfraniad i gymdeithas. Mae elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn darparu tystiolaeth o werth cymdeithasol ehangach heneiddio'n iach.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth a nodwyd ag effaith gadarnhaol ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad yn cynnwys:

Rhaglenni ac ymyriadau i hyrwyddo byw'n annibynnol i bobl hŷn



Rhaglenni i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd



Rhaglenni rheoli cyn-diabetes



Ni ellir buddsoddi mewn atal ar ei ben ei hun; mae angen iddo fod yn rhan o ymgyrch ehangach i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy strategaethau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar a lleihau tlodi. Mae'n hanfodol bod gwariant cyhoeddus o fudd i gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, gyda ffocws ar ymyriadau effaith uchel gyda photensial sylweddol, graddadwy. Mae angen i fuddsoddiad fod yn rhan o ymrwymiad hirdymor sydd nid yn unig yn arwain at ganlyniadau cyflym ond hefyd yn caniatáu amser i'r effaith lawn gael ei gwireddu (dros 5 mlynedd) ⁽¹⁾.

Mae maint yr her sy'n ein hwynebu yn golygu bod angen blaenoriaethu atal, gweithio ar draws sectorau a ffiniau, cynnwys ein poblogaeth ac atebion integredig i broblemau cymhleth, gan sicrhau bod ein gweithredoedd yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) ⁽⁵⁾ i gyflawni newid cynaliadwy a system iechyd a gofal gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriadau

1. Masters R, Anwar E, Collins B, Cookson R, Capewell S. Return on investment of public health interventions: a systematic review. J Epidemiol Community Health. 2017;71(8):827-34.
2. RCPCH. Cyflwr Iechyd Plant 2020: Cymru. 2020. Ar gael o: <https://stateofchildhealth.rcpch.ac.uk/wp-content/uploads/sites/2/2020/03/SOCH-WELSH-4-03.03.pdf>.
3. Office for National Statistics. Avoidable mortality in the UK: 2019. 2019. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/avoidablemortalityinenglandandwales/2019>.
4. Llywodraeth Cymru. Llesiant Cymru, 2023. 2023. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/4/1695889903/llesiant-cymru-2023.pdf>
5. Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. 2015. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/7/1/1719821321/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf>.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

 [@PublicHealthW](https://twitter.com/PublicHealthWales)

 [/PublicHealthWales](https://www.facebook.com/PublicHealthWales)